

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio gwefannau hamdden a llyfrgelloedd: Awdurdodau Lleol (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1)



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	2
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	10
5	Casgliadau ac Argymhellion	13
6	Atodiadau	15

1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.3 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.4 Mae gwefannau hamdden a llyfrgelloedd yr awdurdodau lleol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth eleni. Mae ein sylw wedi ei roi i wefannau corfforaethol yr awdurdodau dros y pedair mlynedd diwethaf. Mae nifer cynyddol o sefydliadau bellach yn defnyddio cwmnïau trydydd parti i gynnal y gwasanaethau hyn ar ran yr awdurdodau lleol ac mae'r Comisiynydd wedi derbyn sylwadau am ddefnydd y Gymraeg yn gyffredinol yn y meysydd hyn.
- 1.5 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio oedd yn canolbwyntio yn benodol ar is-wefannau awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd. Er na wiriwyd gwefannau y Parciau Cenedlaethol, Gweinidogion Cymru a'r Cydbwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r arolwg, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 o safbwynt cynnal is-wefannau yn unol â gofynion y safonau.
- 1.6 Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a rhannu'r canfyddiadau gyda'r sefydliadau yn unigol, bydd disgwyl i bob sefydliad adrodd i ni ymhen tri mis gan nodi'r camau sydd wedi eu rhoi mewn lle i ymateb i'r argymhellion hyn.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd pob awdurdod lleol (22 sefydliad) sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 ("Rheoliadau Rhif 1") yn ystod mis Hydref 2025.
- 2.2 Mae Rheoliadau Rhif 1, sy'n berthnasol i awdurdodau lleol, yn cynnwys pum safon (52, 53, 54, 55 a 56) sy'n gosod gofynion ar gyfer darparu gwefan yn Gymraeg.
- 2.3 Safonau 52, 55 a 56 sydd wedi'u gosod ar bob awdurdod lleol ac felly'n rhan o'r arolygon.

- 2.4 Mae safon 52 yn nodi:

Rhaid ichi sicrhau –

- (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,*
- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac*
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.*

- 2.5 Mae safon 55 yn nodi:

Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

- 2.6 Mae safon 56 yn nodi:

Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

- 2.7 Yn ychwanegol at y safonau uchod, arolygwyd dwy safon gysylltiedig sef safon 37 (cyhoeddusrwydd a hysbysebu) a safon 83 (hunaniaeth corfforaethol).

- 2.8 Mae safon 37 yn nodi:

Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

- 2.9 Mae safon 83 yn nodi:

Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.


- 2.10 Gwiriwyd deg tudalen yn ymwneud â gwasanaethau hamdden, a deg tudalen yn ymwneud â gwasanaethau llyfrgelloedd ar wefan pob sefydliad.

- 2.11 Nid oedd gan un sefydliad ddeg o dudalennau i'w gwirio ar y wefan hamdden nac ar y wefan llyfrgelloedd.
- 2.12 Yn gyfan gwbl, gwiriwyd 215 o dudalennau hamdden a 214 o dudalennau llyfrgelloedd.

3 Canfyddiadau


- 3.1 Darperir isod drosolwg o ganfyddiadau ein gwaith arolygu mewn perthynas â thudalennau gwe hamdden a llyfrgelloedd yr awdurdodau lleol.

Gwasanaethau Hamdden




- 3.2 Dangosodd canlyniadau'r arolygon fod 85% (183) o'r tudalennau ar gael yn Gymraeg. Roedd 4% o'r tudalennau ddim ar gael o gwbl yn Gymraeg, ac roedd 11% ar gael yn Gymraeg yn rhannol yn unig.
- 3.3 Roedd 41% (88) o'r tudalennau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ymhlith yr enghreifftiau o driniaeth llai ffafriol roedd dolenni'n cyfeirio at dudalennau Saesneg, a theitlau neu destun Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg lle dylai fod teitlau a thestun Cymraeg.
- 3.4 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd yr unig awdurdod lleol a lwyddodd i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar bob un o'r tudalennau a wiriwyd.

- 3.5 Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu gwael ar rai tudalennau. Er enghraifft, wrth archebu gweithgaredd ar wefan gwasanaeth hamdden, roedd y Saesneg yn nodi 'Book activity', ond roedd y Gymraeg yn nodi 'Gweithgaredd Llyfr' (yn hytrach na 'archebu gweithgaredd'). Enghraifft arall oedd 'Diwrnod yn mynd hebio' ar gyfer 'Day Passes' mewn canolfannau hamdden. Roedd y wefan hon yn cynnwys nodyn yn egluro eu bod yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA) i gyfieithu cynnwys i'r Gymraeg, ac felly y gallai fod camgymeriadau ar y wefan. Gweler safbwynt y Comisiynydd ar gyfieithu peirianyddol yn adran 5 isod.
- 3.6 Gwelwyd bod 67% o'r tudalennau a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â safon 52.




- 3.7 Nodwyd bod 96% o'r tudalennau yn cydymffurfio â safon 55. Roedd saith tudalen nad oedd yn cydymffurfio oherwydd nad oedd tudalen gyfatebol ar gael yn Gymraeg.




3.8 Roedd 85% o'r tudalennau yn cydymffurfio â safon 56. Ymhlith y gweddill nad oedd yn cydymffurfio neu'n cydymffurfio'n rhannol, gwelwyd enghreifftiau o ddewislenni yn Saesneg, teitlau dewislenni yn Saesneg a diffyg tudalennau Cymraeg.

3.9 O safbwynt safon 37 (deunydd cyhoeddusrwydd), dim ond 30 tudalen oedd yn cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd ac felly yn berthnasol i'r safon. O'r tudalennau hynny, roedd 60% yn cydymffurfio, 20% ddim yn cydymffurfio a 20% yn cydymffurfio'n rhannol.




- 3.10 Ymhlith yr enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth roedd teitlau uniaith Saesneg ar fideos heb leisiau, a baneri cyhoedduswydd uniaith Saesneg.
- 3.11 Roedd cydymffurfiaeth â'r safon yn ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol (safon 83) yn gymharol well, gyda 88% o'r tudalennau perthnasol yn cydymffurfio. Nodwyd 12 tudalen (6%) nad oedd yn cydymffurfio, oherwydd enghreifftiau o enwau neu logo uniaith Saesneg, neu logo lle'r oedd y Saesneg uwchben y Gymraeg. Roedd 6% arall wedi'u nodi fel cydymffurfio'n rhannol.




Llyfrgelloedd


- 3.12 Dangosodd canlyniadau'r arolygon fod 97% (209) o'r tudalennau ar gael yn Gymraeg. Roedd 1% o'r tudalennau ddim ar gael o gwbl yn Gymraeg, ac roedd 2% ar gael yn rhannol.



- 3.13 Roedd 33% (70) o'r tudalennau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ymhlith yr enghreifftiau roedd teitlau a thestun Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg lle dylai fod teitlau a thestun Cymraeg, misoedd y flwyddyn yn Saesneg er bod y dyddiau'n Gymraeg, a dolenni'n arwain at fersiynau Saesneg er bod fersiynau Cymraeg ar gael.
- 3.14 Cyngor a Dinas Abertawe, Cyngor Caerdydd a Cyngor Sir Fynwy oedd yr unig awdurdodau lleol a lwyddodd i sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar bob un o'r tudalennau a wiriwyd.
- 3.15 Gwelwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu gwael. Un enghraifft oedd ar wefan Borrowbox – gwasanaeth digidol sy'n cynnig e-lyfrau ac e-lyfrau llafar i'w lawrlwytho a'u darllen neu wrando arnynt ar gyfrifiadur neu ddyfeisiau symudol. Mae'r gwasanaeth ar gael am ddim i aelodau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru (a'r DU), ac yn cael ei ddefnyddio gan ran helaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod y gwallau'n effeithio ar bob awdurdod sy'n ei ddefnyddio. Ymhlith yr enghreifftiau roedd:
- “Unlimited copies - everyone can borrow today!/ Copïau diderfyn - gall pawb”.
- 3.16 Gwelwyd bod 85% o'r tudalennau a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â safon 52.




3.17 Nodwyd bod 95% o'r tudalennau yn cydydffurfio â safon 55. Yr unig dudalen nad oedd yn cydydffurfio oedd oherwydd nad oedd tudalen gyfatebol ar gael yn Gymraeg.




3.18 Roedd 98% o'r tudalennau yn cydydffurfio â safon 56. Ymhlith y gweddill nad oedd yn cydydffurfio neu'n cydydffurfio'n rhannol, gwelwyd enghreifftiau o ddewislenni a theitlau dewislenni yn Saesneg.

3.19 O safbwynt safon 37 (deunydd cyhoeddusrwydd), dim ond 11 tudalen oedd yn cynnwys deunydd cyhoeddusrwydd ac felly yn berthnasol i'r safon. O'r tudalennau hynny, roedd 73% yn cydydffurfio, 18% ddim yn cydydffurfio a 2% yn cydydffurfio'n rhannol. Roedd enghreifftiau o ddiffyg cydydffurfiaeth yn cynnwys infograffeg uniaith Saesneg ar fideos.



3.20 Mae cydymffurfiaeth y sefydliadau gyda'r safon yn ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol (safon 83) yn well gyda 97% o'r tudalennau perthnasol yn cydymffurfio. 4 tudalen (2%) oedd yn methu cydymffurfio. Roedd rhain oherwydd enghreifftiau o enwau a logo uniaith Saesneg neu logo gyda'r Saesneg uwchben y Gymraeg. Roedd 1% wedi'u nodi fel cydymffurfio'n rhannol.




4 Tueddiadau

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 4.1 Dengys yr arolygon bod 91% o'r tudalennau a wiriwyd yn yr adrannau hamdden a llyfrgelloedd ar gael yn Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn galonogol, ond mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.
- 4.2 Er hynny, roedd 37% o'r tudalennau hynny yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.3 Ymhlith yr enghreifftiau roedd botymau dewis iaith nad oedd yn gweithio, neu wedi'u gosod mewn manau nad oedd yn amlwg i'r defnyddiwr.
- 4.4 Nodwyd hefyd enghreifftiau o enwau a logo uniaith Saesneg, neu'r Saesneg yn ymddangos uwchben y Gymraeg. Mae sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn hawdd eu hadnabod yn hanfodol i'w defnyddio; felly, byddai gwneud y Gymraeg yr un mor amlwg a'r Saesneg yn gam allweddol.
- 4.5 Gwelwyd nifer o achosion lle'r oedd Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg, megis dyddiadau, teitlau, dewislenni, amserlenni a chalendrau gyda misoedd y flwyddyn yn uniaith Saesneg er bod y dyddiau'n Gymraeg.
- 4.6 Nodwyd hefyd fod dolenni ar dudalennau Cymraeg yn arwain at dudalennau Saesneg er bod fersiynau Cymraeg ar gael, a bod dolenni ar dudalennau Saesneg nad oedd yn ymddangos ar yr ochr Gymraeg.
- 4.7 Wrth ddefnyddio cyfeiriadau ar wefannau, e.e. cyfeiriad llyfrgell neu ganolfan hamdden, gwelwyd defnydd o gyfeiriadau Saesneg yn unig. Roedd sawl enghraifft hefyd lle'r oedd y dudalen Saesneg wedi'i diweddarau, ond nad oedd y dudalen Gymraeg wedi'i diweddarau ers peth amser.

Hunaniaeth gorfforaethol

- 4.8 Wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd bod 7% o'r tudalennau a wiriwyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y rhesymau hyn yn gyffredin ar draws y sefydliadau nad oedd yn cydymffurfio: enw a logo uniaith Saesneg ar y gwasanaeth dan sylw oedd y prif reswm, tra bod achosion eraill yn cynnwys y Saesneg yn ymddangos uwchben y Gymraeg neu wedi'i uwch oleuo'n fwy amlwg.
- 4.9 Gwelwyd enghraifft gadarnhaol gan Gyngor Sir y Fflint, lle'r oedd y sefydliad wedi llwyddo i ddefnyddio enw Cymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg.



Fideos a chlipiau sain


4.10 Mae safon 37 yn datgan:

Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 4.11 Gwelwyd naw fideo ar y tudalennau a wiriwyd. Ymhlith y rhain, roedd un fideo yn uniaith Saesneg, un fideo yn cynnwys llais Saesneg ac is deitlau Cymraeg, a dau fideo yn cynnwys testun Saesneg yn unig. Roedd y gweddill yn fideos heb ddeialog, gyda cherddoriaeth gefndirol yn unig.
- 4.12 Mae ein Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn nodi y gall defnyddio isdeitlau neu droslais dros glipliau Saesneg arwain at y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.13 Gwelwyd un enghraifft o fideo uniaith Saesneg yn cynnwys plentyn ysgol yn siarad, heb fideo cyfatebol Cymraeg ar gael. Rydym yn cydnabod y gall sicrhau siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur fod yn heriol, ac mewn rhai amgylchiadau efallai nad yw hynny'n rhesymol nac yn ymarferol – er enghraifft, lle bo angen person penodol nad yw'n medru'r Gymraeg er mwyn cyfleu neges benodol. Serch hynny, disgwylir i sefydliadau wneud ymdrechion rhesymol i ddefnyddio siaradwyr Cymraeg lle bo hynny'n bosibl, ac i gyhoeddi fideos yn Gymraeg pan fo modd. Yn yr achos hwn, credwn na fyddai yn afresymol disgwyl i'r awdurdod dan sylw i wneud fideo cyfatebol gyda phlentyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Platfformau Digidol Gwasanaethau Llyfrgelloedd

- 4.16 Mae'r mwyafrif o sefydliadau'n defnyddio Borrowbox a Spydus ar gyfer cynnal eu gwasanaethau llyfrgelloedd. Er bod y tudalennau hyn ar gael yn Gymraeg, maent yn cynnwys yr un gwallau ar draws yr holl sefydliadau. Un enghraifft o hyn yw'r Calendr Digwyddiadau ar Spydus sy'n dangos dyddiau'r wythnos yn Gymraeg ond yn cadw enwau'r misoedd yn Saesneg yn unig:



5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Roedd 60% o'r negeseuon a wiriwyd fel rhan o'r arolwg yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 52. Mae hyn yn ostyngiad o 19% o gymharu â chanfyddiadau'r arolwg yn 2024- 2025, pan wiriwyd tudalennau gwefannau corfforaethol yn unig. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth is-wefannau yn ddigonol. O ganlyniad, dylai sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio, gan sicrhau bod trefniadau monitro a gwirio yn rhoi'r un lefel o graffu i'r is-wefannau ag i'r prif wefan.
- 5.2 Mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda 37% o'r tudalennau wedi methu â sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r ddyletswydd hon. Nid yw cyhoeddi tudalen gwefan yn Gymraeg yn gwarantu cydymffurfiaeth. Mae angen ystyried ystod ehangach o ffactorau, gan gynnwys dolenni i dudalennau neu wefannau eraill, baneri ar ben neu waelod tudalennau, teitlau adrannau, iaith unrhyw fideos neu glipiau sain, gwelededd a hygyrchedd y cynnwys Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gyfredol ac o'r un safon â'r deunydd Saesneg. Yn gysylltiedig â hyn, dylid gwirio gofynion safonau sy'n ymwneud â deunyddiau cyhoedduswydd wrth gyhoeddi tudalennau gwefan, yn ogystal â safon 52.
- 5.3 Wrth gyhoeddi a chynnal tudalennau gwefan, rhaid ystyried gofynion safon 83 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol yn ogystal â'r safonau sy'n berthnasol i dudalennau gwefan. Dylid sicrhau nad yw'r logo nac enw'r sefydliad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.4 Fel y nodwyd yn 3.4 uchod, gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu gwael a'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (DA) i gynnal tudalennau Cymraeg. Gall defnyddio modelau DA i gyfieithu dogfennau, gwefannau neu gyfathrebiadau heb drefniadau cadarn i wirio cywirdeb arwain at wallau ieithyddol neu gamgymeriadau sy'n tanseilio safonau'r Gymraeg ac yn lleihau ymddiriedaeth yn y gwasanaethau. Mae'n hanfodol bod sefydliadau'n sicrhau bod ganddynt drefniadau cadarn i fonitro, gwirio ac adolygu unrhyw gyfieithiadau peirianyddol gan swyddog cymwys cyn eu cyhoeddi.
- 5.5 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi [datganiad polisi rheoleiddiol](#) newydd sy'n amlinellu disgwyliadau clir ar sefydliadau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial (DA) wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r datganiad yn pwysleisio bod rhaid i dechnolegau newydd gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg, ac nad yw'r defnydd ohonynt yn esgus dros fethu â chydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg.
- 5.6 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, cyflwynir yr argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1:

Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau adolygu eu prosesau hunan-reoleiddio i sicrhau bod is-wefannau yn cydymffurfio â'r holl safonau perthnasol. Dylid darparu arweiniad a chanllawiau ymarferol i bob aelod o staff, gan gynnwys trydydd partïon sy'n gyfrifol am wefannau

neu dudalennau adrannau, er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r gofynion a sut i'w bodloni.

Argymhelliad 2: Hunaniaeth gorfforaethol

Dylai sefydliadau gynnal awdit llawn o'r holl wefannau y maent yn gyfrifol amdanynt i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gan gynnwys gwirio logos ac enwau.

Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi neu ddiwygio tudalennau

Dylai sefydliadau sicrhau bod tudalennau Cymraeg yr un mor gyfredol â'r rhai Saesneg. Dylid sicrhau bod gweithdrefnau cadarn mewn lle i atal cyhoeddi neu ddiwygio tudalen Saesneg heb wneud yr un camau ar gyfer y dudalen Gymraeg gyfatebol.

Argymhelliad 4: Cyfieithu

Dylai sefydliadau sicrhau bod prosesau cadarn mewn lle i wirio safon a chywirdeb cyfieithiadau. Lle defnyddir cyfieithu peirianyddol neu DA, rhaid i'r cynnwys gael ei wirio gan swyddog cymwys cyn ei gyhoeddi.

Argymhelliad 5: Fideos

Dylai sefydliadau archwilio dulliau amgen o gyhoeddi fideos yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o fewn cynnwys y fideo lle bo hynny'n ymarferol bosib.

Argymhelliad 6: Cydweithio

Dylai sefydliadau sy'n defnyddio platfformau Borrowbox a Spydus gydweithio â'r cwmnïau hyn i roi camau mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau.

6 Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

	Tudalennau Hamdden	Tudalennau Llyfrgelloedd
Nifer y tudalennau a wiriwyd	215	214
Nifer a % y tudalennau oedd ar gael yn Gymraeg	183 (85%)	209 (97%)
Nifer a % y tudalennau oedd ar gael yn rhannol yn Gymraeg	23 (11%)	3 (2%)
Nifer a chanran y tudalennau oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	88 (41%)	70 (33%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 37	18 (60%)	8 (73%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 52	144 (67%)	181 (85%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 55	207 (97%)	204 (95%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 56	183 (85%)	211 (98%)
Nifer a chanran y tudalennau perthnasol oedd yn cydymffurfio â safon 83	167 (88%)	197 (97%)

Atodiad 2: Rhestr sefydliadau'r arolwg

- Cyngor Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Benfro
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn